


SLAM

Diwrnod
Sbort Lles Antur Mwy



Lle: Y Ganolfan, Llanberis
Pryd: 1.30-4y.p 28/2/2019
Cyswllt: susanpanthyfryd@btinternet.com, 07769279231

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Chwefror 17

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 24

5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

Mawrth 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 17

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Chwefror 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mawrth 3

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

DIM Ysgol Sul

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 786
10 Chwefror, 2019

Gronyn



Cludo'r cargo

A dyna ddiwedd ar hynny felly! Ond o leiaf, mae'r £13.8 miliwn yn saff.

Mis Rhagfyr oedd hi, yr wythnos ar ôl y Nadolig os cofiaf yn iawn. Ie, mor ddiweddar â hynny y cyhoeddodd Chris Grayling, Ysgrifennydd Trafnid-iaeth Llywodraeth San Steffan ei fod wedi gwneud trefniadau arbennig rhag ofn y byddai hi'n dod i'r gwaethaf a bod y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb unrhyw fath o gytundeb. (Nid bod Mr Grayling wedi defnyddio'r geiriau 'dod i'r gwaethaf' wrth gwrs.) Rhag bod yna oedi o fath yn y byd ym mhorthladdoedd De Lloegr roedd Mr Grayling wedi trefnu i dri chwmmi ddarparu ychwaneg o longau i groesi'r Sianel. Cwmmiau o Ffrainc a Denmarc oedd dau ohonynt, ac iddynt hwy y rhoddwyd cytundebau gwerth £89.1 miliwn (hysbyseb gwael iawn i allu'r Deyrnas Unedig i ofalu amdani ei hun yn annibynnol ar weddill Ewrop!) Dim ond £13.8 miliwn oedd gwerth y cytundeb a wnaed â'r trydydd chwmmi, Seaborne Freight; ond yr oedd Mr Grayling yn falch o gyhoeddi fod un o'r tri chwmmi yn Brydeinig.

Ond lai na deufis yn ddiweddarach, cyhoeddodd Mr Grayling ddoe fod y cytundeb â Seaborne Freight wedi ei ddileu. Doedd hi ddim yn syndod i neb glywed hynny wrth gwrs o gofio mai chwmmi newydd oedd hwn, nad oedd (er gwaethaf ei enw) wedi cludo owns o gargo dros unrhyw fôr erioed, a hynny mae'n debyg am nad oedd ganddo'r un llong na chwch. Roedd hyn yn hysbys

i'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr, ac eto fe wnaed y cytundeb â'r cwmmi. Ond dilëwyd y cytundeb hwnnw ddoe am fod chwmmi Gwyddelig o'r enw Arklow Shipping wedi penderfynu peidio â noddi Seaborne Freight. Roedd llawer yn beirniadu'r cytundeb a wnaed â chwmmi llongau nad oedd ganddo'r un llong na'r un daith wrth ei enw. Roedden nhw yn llygad eu lle.

Ynfydrwydd oedd dyfarnu'r cytundeb i Seaborne Freight nad oedd ganddo'r adnoddau i gyflawni'r gwaith. Ar un wedd, ynfydrwydd hefyd oedd hi i Dduw ymddiried gwaith yr Efengyl i'w bobl; yr apostolion, Cristnogion yr oesoedd a ninnau heddiw. Oherwydd nid oes gennym ni chwaith adnoddau digonol ar gyfer y gwaith. Nid ydym yn ddigon da nac yn ddigon cryf; nid yw'n geiriau'n ddigonol; ac nid yw'r gallu gennym i ennill neb i greu'r neges fawr a ymddiriedwyd i ni. 'Llestri pridd' ydym fel y dywed Paul (2 Corinthiaid 4:7), ond y rhyfeddod yw bod Duw wedi rhoi i ni ran yng ngwaith ei Deyrnas a bod 'y trysor hwn gennym mewn llestri pridd, i ddangos mai eiddo Duw yw'r gallu tra rhagorol, ac nid eiddom ni'.

Yn wahanol i Seaborne Freight mae Eglwys Iesu Grist ym mhob oes wedi hwylio moroedd y canrifoedd gan gludo trysor Efengyl gras a chariad Duw. Mae'n parhau i wneud hynny, er gwaethaf ei gwendid a'i hanallu, am fod Duw yn ei nerthu a'i galluogi i wneud hynny.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Eric Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Daliwn i gofio am aelodau a chyfeillion yr eglwys sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddynt ac at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd. Yr un modd, anfonwn gofion gorau at ein haelodau sydd mewn cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl. Dymunwn yn dda hefyd i bawb ohonoch sy'n fawr eich gofal am anwyliaid gartref.

Balm o Salm



'Molwch yr ARGLWYDD, yr holl **BYW Y BEIBL** genhedloedd; clodforwch ef, yr holl bobloedd. Oherwydd mae ei gariad yn gryf tuag atom, ac y mae ffyddlondeb yr ARGLWYDD dros byth. Molwch yr ARGLWYDD' (Salm 117).

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad i deulu Mrs Margaret Owen, Bron Bethel, Llanllechid a fu farw ar Ionawr 11 yn 89 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd yng nghapel Carmel ddydd Gwener, Ionawr 25 dan arweiniad y Parchg Dafydd Coetmor Williams. Cydymdeimlwn â'i mab a'i merch, Gareth a Fiona a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo

Bu farw Mrs Non Wyn Evans, Cynlas, Llanberis yn Ysbyty Gwynedd nos Fawrth, Chwefror 5 yn 81 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â'i mab Eifion ac â'i theulu ehangach yn eu colled. Roedd yn wraig annwyl a thawel ac yn driw iawn i'w theulu a'i ffrindiau. Cafodd ei magu yn Capel Coch; ac yn ei chynefin yn Llanberis y bu'n byw ar hyd ei hoed.

Yn unol â'i dymuniad hi ei hun, angladd cwbl breifat a gynhelir.

Pwyllgor Gofalaeth

Cynhelir Pwyllgor yr Ofalaeth i drafod materion ariannol yr Ofalaeth yn Capel Coch, am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Chwefror 19.

Gobeithio bod y dyddiad yn hwylus.

Cwrs Ieuenctid

Cynhelir y Cwrs Ieuenctid nesaf yng Ngholeg y Bala (ar gyfer ieuenctid Blwyddyn Ysgol 7 i 11) o nos Wener i ddydd Sul, Mawrth 1-3.

Holwch Susan neu'r Gweinidog am ragor o fanylion.

Pwyllgor Cymanfa

Cynhelir Pwyllgor Cyffredinol Cymanfa Annibynwyr Dosbarth Bangor yn Festri Carmel Llanllechid, am 6.30 o'r gloch, nos Lun, Chwefror 18.

Hefyd, bydd cyfarfod o Is-Bwyllgor y Maes Llafur yn dilyn yn syth ar ôl y pwyllgor uchod.

Henaduriaeth

Cynhelir cyfarfod nesaf Henaduriaeth Arfon yng nghapel Bethania, Y Felinheli am 1.30 o'r gloch, ddydd Mawrth, Chwefror 19.

Cronfa Gronyn

Tua dechrau'r flwyddyn y byddwn yn arfer cyfeirio at gronfa Gronyn. Fel y gwyddoch, nid ydym yn disgwyl i neb dalu am ei gopi o Gronyn gan mai rhan o genhadaeth eglwysy'r Ofalaeth ydyw. Ond yr ydym yn ddiolchgar er hynny am bob rhodd a gawn at gost ei gynhyrchu. Felly, os oes unrhyw un yn dymuno rhoi rhodd at y gost honno gellwch ei roi i un o swyddogion eich eglwys neu i'r Gweinidog. Diolch yn fawr iawn am y rhoddion a dderbyniwyd yn barod eleni.

SLAM

Caiff SLAM ei gynnal yn Y Ganolfan yn Llanberis yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror, bawn Iau, Chwefror 28.

Be' di SLAM? Anagram sy'n crynhoi natur y gweithgaredd hwn ar gyfer pobl

ifanc 11-16 oed: "Sbort, Lles, Antur, Mwy". Cyfle i'r ieuenctid gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hamdden a chwaraeon a dawns yn ogystal â chael clywed am y gwahaniaeth y gall Iesu Grist ei wneud i fywyd pawb ohonom. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys pel fasged, pel foli, hoci, swmba a dawns stryd.

NID pnawn ar gyfer ieuenctid Llanberis yw hwn. Caiff ei gynnal yn Llanberis am fod y Ganolfan yn hwylus ar gyfer y math hwn o bnawn. Mae croeso i bobl ifanc o unrhyw le ddo yno. Lle i 60 sydd, ac felly brysiwch i roi'r enwau i Susan Williams os gwyddoch am bobl ifanc sydd eisiau dod yno.

Cysylltwch â Susan trwy ebost neu ffôn susanpanthyfryd@btinternet.com neu 07769 279231

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER
Yn Nhŷ Elidir

Dydd Sul, Chwefror 17: Gwasanaethir am 5.00 gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A REHOBOTH,
A NANT PADARN

Dydd Sul, Chwefror 17: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Chwefror 15: Dwylo Prys-ur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 17: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Chwefror 17: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Eric Jones.